



# Newyddlen Rhifyn 2 Ebrill 2015

## Dathlu 20 Mlynedd o fod yn Aelodau o'r UE: Awstria, Ffindir a Sweden

Yn y pedwerydd cylch i ehangu'r UE, ymunodd y Ffindir, Awstria a Sweden gyda'r Undeb Ewropeidd ar 1 Ionawr 1995, gan wneud cyfanswm o 15 o Aelod-wladwriaethau. Y tair gwlad yma oedd y gwledydd newydd cyntaf i ymuno â'r UE ar ôl diwedd y Rhyfel Oer.



### Sweden



### Y Ffindir



### Awstria



Sweden, Ffindir ac Awstria oedd y gwledydd newydd cyntaf i ymuno â'r UE ar ôl diwedd y Rhyfel Oer, gan ddod yn aelodau ar 1 Ionawr 1995. Mae'r Ffindir a Sweden yn wledydd Sgandinafaidd yng Ngogledd Ewrop, tra bod Awstria yn nwyrain yr Alpau yng nghanol Ewrop. Roedd y tair gwlad y tu allan i'r UE yn ystod y Rhyfel Oer oherwydd eu bod yn credu nad oedd ymuno â'r UE yn cyd-fynd â'u statws niwtral. Ers ymuno maen nhw wedi bod yn wlydiadwrs ond yn gefnogol ar y cyfan i brosiectau'r UE, er bod teimladau gwrth-UE cryfion ym mhob un o'r tair gwlad.

### Hanes Diweddar

Tra bod Sweden yn niwtral yn ystod yr Ail Ryfel Byd, roedd lluoedd y Ffindir wedi bod yn ymladd yn erbyn lluoedd Rwsia ac roedd Awstria wedi bod yng nghanol y gwrthdaro, fel rhan o'r Trydydd Reich. Ar ôl y rhyfel, ymunodd y Ffindir ac Awstria â Sweden fel gwledydd niwtral. Yn ystod y degawdau wedyn ffynnodd y tair gwlad gan ddatblygu'n bartneriaid masnachu pwysig drwy Ardal Masnach Rydd Ewrop (EFTA). Gadawodd y tair gwlad y sefydliad hwn ar ôl ymuno â'r UE.

### Cysylltiadau â'r UE

Roedd ymuno â'r UE yn bennod newydd yn hanes y tair gwlad. Roedd yn golygu bod y tair gwlad yn gorfod ailasesu eu statws niwtral oherwydd o dan Gytundeb Maastricht (1992) roedd yn bosibl y byddai'r Undeb Ewropeidd yn datblygu ei bolisi tramor ac amddiffyn ei hun yn y dyfodol. Ar ôl addasu i'r newid sylweddol hwn, mae'r tair gwlad yn chwarae rhan bwysig yng ngwleidyddiaeth yr UE, ac ymysg yr economïau mwyaf cystadleuol yn y bloc.

Fodd bynnag, roedd ehangu'r UE i gynnwys Sweden, Ffindir ac Awstria hefyd yn golygu bod yn rhaid i'r UE newid y ffordd yr oedd yn gweld ei hun. Cyn ymuno â'r UE, bu i Sweden negodi ei bod yn optio allan o unrhyw ymgais yn y dyfodol i greu lluoedd arfog Ewropeidd, er mwyn diogelu ei statws niwtral newydd. Hefyd penderfynodd Sweden i beidio ag optio allan o'r Ewro, penderfyniad a gadarnhawyd mewn refferendwm yn 2003. Mae penderfyniadau o'r fath wedi arwain at gydnabod bod yr UE yn datblygu ar wahanol raddfa, gyda rhai llywodraethau'n awyddus i integreiddio ymhellach nag eraill. Eto i gyd, mewn meysydd eraill, mae'r gwledydd hyn wedi cynnig arweinyddiaeth. Er enghraifft, yn ddiweddar bu Awstria'n flaenllaw yn yr ymgais i ddod â'r Balcanau o dan ddylanwad yr UE. Yn ystod Llywyddiaeth Sweden o'r UE yn ail hanner 2009, goruchwyliodd y broses o weithredu Cytundeb Lisbon (2007).

## Digwyddiadau a gynhelir

### Diwrnod eEfeillio: diwrnod dathlu yn yr ysgol!

Beth am ddathlu deg mlynedd ers sefydlu eEfeillio trwy ymuno â ni yn y diwrnod eEfeillio blynyddol cyntaf erioed! Bydd logo dynol, rhyddhau balwnau a mwy... beth fydd eich ysgol yn ei wneud? Dangoswch i ni drwy rannu eich lluniau ar ein cyfrif Instagram newydd sbon !



Cofnodwch y dyddiad: **7 Mai** fydd y diwrnod eEfeillio ym mhob un o wledydd eEfeillio!

Gwahoddir eich ysgol i gymryd rhan yn y gweithgareddau y bwriadwn eu cynnal i ddathlu 10 mlynedd ers i ni gael ein sefydlu. Gallwch ddewis o'r gweithgareddau canlynol, chi piau'r dewis:

- Creu logo dynol: Mae cydweithio a dychymyg wrth wraidd eEfeillio. Gadewch i'ch disgyblion ddefnyddio eu dychymyg trwy ofyn iddynt wneud siâp logo eEfeillio ar fuarth yr ysgol, y gampfa neu'r ystafell ddosbarth.
- Trefnwch ddigwyddiad rhyddhau balwnau yn eich ysgol.

Tra eich bod yn cael hwyl yn gwneud y gweithgareddau, tynnwch luniau a rhannwch nhw drwy'r cyfryngau cymdeithasol drwy ddefnyddio'r hashnod #eTwinningDay ar 7 Mai. Rydym hefyd wedi sefydlu ein cyfrif Instagram ein hunain i'ch helpu i rannu gwybodaeth am yr hyn y mae eich ysgol wedi bod yn ei wneud.

Nodwch, nid oes raid i chi aros tan 7 Mai i wneud y gweithgareddau uchod, ond gofynnwn yn garedig i chi aros tan hynny i rannu'r lluniau neu'r fideos. Rydym yn awyddus i ddiwrnod eEfeillio gael ei ddathlu'r un pryd ym mhob gwlad eEfeillio a byddwn yn defnyddio'r lluniau a'r fideos hyn ar y wefan hon ac ar y wefan fach sy'n dathlu 10 mlynedd ers i ni gael ein sefydlu. Mae croeso i chi gysylltu â'ch NSS os oes angen cymorth arnoch.

Felly byddwch yn barod i ddathlu diwrnod eEfeillio yn eich ysgol eleni – helpwch i ddechrau traddodiad eEfeillio newydd ar gyfer y dyfodol!



### Wythnos leuentid Ewropeaidd

Cynhelir Wythnos leuentid Ewropeaidd yn y Deyrnas Unedig rhwng **27 Ebrill a 3 Mai 2015**. Mae'n wythnos arbennig pan mae gwledydd ledled Ewrop yn cynnal digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd Ewropeaidd i bobl ifanc. Mae gan y Porth leuentid Ewropeaidd wybodaeth am bopeth sy'n digwydd. Os hoffech chi gynnal digwyddiad, neu roi gwybod i ni am rywbeth yr ydych eisoes wedi ei gynllunio, cwblhewch y ffurflen ar-lein ar wefan Eurodesk, a chewch becyn marchnata digidol am ddim. I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Cydlynnydd Cenedlaethol ar gyfer Wythnos leuentid Ewropeaidd yn y Deyrnas Unedig.

# 2015 - Blwyddyn Ewropeaidd ar gyfer Datblygu

Cyflwynwyd y Flwyddyn Ewropeaidd ar gyfer Datblygu yn ein Newyddlen flaenorol. Eglurwyd bod gan bob mis brif thema. Dyma'r themâu ar gyfer y mis hwn a'r mis nesaf:

## Ebrill - Iechyd

Mae iechyd yn hawl dynol sylfaenol. Pan osododd y gymuned ryngwladol Nodau Datblygu'r Mileniwm yn 2000, cyfeiriodd nifer ohonynt yn uniongyrchol ac anuniongyrchol at iechyd. Fodd bynnag, mae cynnydd yn y maes hwn – yn arbennig o safbwynt iechyd marchod a phlant – wedi bod yn araf mewn nifer o wledydd. Felly nid yw pethau wedi mynd yn union yn ôl y disgwyl. Sut gallwn ni ddysgu yn sgil hyn a thorri'r cylch dieflig lle mae tlodi'n tansilio iechyd, tra bod iechyd gwael yn gwaethygu tlodi?

## Mai - Heddwch a Diogelwch

Saith deng mlynedd ers diwedd yr Ail Ryfel Byd, mae gwrthdaro a thrais yn dal i orfodi gwledydd a'u pobl i fyw mewn cylchoedd o ansicrwydd a thlodi, gan amharu'n ddifrifol ar unrhyw ymgais i sicrhau datblygu cynaliadwy. Y ffordd orau i fynd i'r afael â hyn yw trwy weithredu dull cynhwysfawr, ar y cyd – o rybuddio'n gynnar ac atal i ac adfer, sefydlogi a chreu heddwch yn fuan. Dylai polisïau a rhaglenni datblygu fynd i'r afael â gwrthdaro, meithrin gwytnwch a helpu gwledydd sy'n cael eu heffeithio i ddilyn llwybr datblygu cynaliadwy, er mwyn i'w pobl allu byw mewn cymdeithasau heddychlon, sefydlog.



## Cymorth datblygu UE

15 peth nad ydych yn eu gwybod efallai am ddatblygu cydweithio yn yr UE yn 2015

1. Mae cymorth UE yn canolbwyntio ar y gwledydd sydd ei angen fwyaf.
2. Mae'r UE yn helpu i wella bywydau miliynau.
3. Mae cymorth UE yn dryloyw ac mae'n hawdd darganfod ble mae'r arian yn mynd.
4. I atal twyll a llygredd, mae cymorth UE yn cael ei archwilio a'i reoli'n gyson.
5. Yr UE a'i Haelod-wladwriaethau gyda'i gilydd yw'r rhoddwyr mwyaf hael o safbwynt cymorth datblygu swyddogol yn y byd.
6. Mae gan wledydd sy'n datblygu lais cryf yn y ffordd y mae cymorth UE yn cael ei wario, beth fydd yn cael ei wneud a ble.
7. Mae'r UE yn dibynnu ar sefydliadau gyda'r profiad priodol i wneud ei brosiectau datblygu ar lawr gwlad.
8. Mae'r UE yn cynnwys sefydliadau cymdeithas sifil pan mae'n bwriadu cydweithio â gwledydd sy'n bartneriaid.
9. Mae tua 25% o gymorth UE yn cael ei roi'n uniongyrchol i lywodraethau fel y gallan nhw wneud eu gwaith, gan ddilyn blaenoriaethau y maen nhw'n eu diffinio eu hunain, gan drafod yn fanwl gyda'r UE.
10. Mae gan yr UE 139 o ddirprwyaethau a swyddfeydd dros y byd, mwy nag unrhyw aelod-wladwriaeth UE. Yr un pryd mae ei chymorth allanol yn llai na degfed ran o'i gyllideb.
11. Mewn nifer o wledydd mae'r UE a'i Haelod-wladwriaethau'n cyfuno eu hymdrechion i ddatblygu er mwyn sicrhau ein bod yn gweithio law yn llaw ac na wneir yr un peth ddwywaith.
12. Mae'r UE yn gweithio'n galed i sicrhau bod ei gwaith mewn meysydd fel masnach a chyllid, amaethyddiaeth, diogelwch, newid hinsawdd, neu fudo'n helpu i oresgyn tlodi mewn gwledydd sy'n datblygu.
13. Mae cymorth dyngarol UE a datblygu cydweithio'n wahanol ond maen nhw'n gweithio law yn llaw.
14. Mae'r byd wedi llwyddo i leihau cyfran y bobl hynod o dlawd fwy na hanner ers 1990.
15. Mae'r Ewropeaid yn credu bod gennym gyfrifoldeb i helpu pobl mewn gwledydd tlawd, ac mae nifer yn barod i chwarae eu rhan i wneud hyn.

Am fwy o wybodaeth ewch i:

<https://europa.eu/eyd2015/en/content/eu-development-aid>



## Diwrnod Ewrop

Cynhelir Diwrnod Ewrop ar 9 Mai bob blwyddyn ac mae'n dathlu heddwch ac undod yn Ewrop. Mae'r dyddiad yn dynodi pen-blwydd 'datganiad hanesyddol Schuman'. Mewn anerchiad ym Mharis yn 1950, cyflwynodd Robert Schuman, y gweinidog tramor yn Ffrainc ar y pryd, ei syniad ar gyfer ffurf newydd o gydweithredu gwleidyddol yn Ewrop, a fyddai'n golygu bod rhyfel rhwng gwledydd Ewrop tu hwnt i amgyffred.

### Datganiad Schuman – 9 Mai 1950

Cyflwynwyd Datganiad Schuman gan Robert Schuman, y gweinidog tramor yn Ffrainc ar y pryd, ar 9 Mai 1950. Roedd yn cynnig creu Cymuned Glo a Dur Ewropeaidd, gyda'r aelodau'n cydrannu glo a dur a gynhyrchid.

Yr ECSC (aelodau sylfaenol: Ffrainc, Gorllewin yr Almaen, yr Eidal, yr Iseldiroedd, Belg a Lwcsembwrg), oedd y gyfres gyntaf o sefydliadau Ewropeaidd a fyddai, yn y pen draw, yn datblygu i fod yn "Undeb Ewropeaidd".

### Cyd-destun hanesyddol

Yn 1950, roedd gwledydd Ewrop yn dal i ymdrechu i oresgyn y dinistr a achoswyd gan yr Ail Ryfel Byd, a oedd wedi dod i ben 5 mlynedd yn gynharach.

Yn benderfynol o atal rhyfel erchyll arall, daeth llywodraethau Ewrop i'r casgliad y byddai cydrannu glo a dur a gynhyrchid – yng ngeiriau'r Datganiad – yn gwneud rhyfel rhwng Ffrainc a'r Almaen, dau hen elyn, "nid yn unig y tu hwnt i amgyffred ond yn amhosibl".

Y gred oedd – a hynny'n gywir – y byddai uno diddordebau economaidd yn helpu i godi safonau byw ac yn gam cyntaf ymlaen at Ewrop fwy unedig. Roedd aelodaeth o'r ECSC yn agored i wledydd eraill.

### Prif ddyfyniadau

"Ni ellir sicrhau heddwch byd heb wneud ymdrech greadigol sy'n gymesur i'r peryglon a fyddai'n ei fygwth."

"Ni fydd Ewrop yn cael ei lunio yn syth, nac ar sail un cynllun. Bydd yn cael ei adeiladu drwy lwyddiannau penodol sydd yn y lle cyntaf yn creu cydgefnoegaeth de facto."

"Bydd cydrannu glo a dur a gynhyrchir... yn newid tynged y rhanbarthau hynny sydd, ers tro, wedi bod yn cynhyrchu arfau rhyfel, y maen nhw wedi dioddef yn gyson o'u herwydd.

**Am wybodaeth lawn am 'Ddatganiad Schuman ewch i :**

[http://europa.eu/about-eu/basic-information/symbols/europe-day/schuman-declaration/index\\_en.htm](http://europa.eu/about-eu/basic-information/symbols/europe-day/schuman-declaration/index_en.htm)

## Beth yw Europe Direct?

Gwasanaeth gwybodaeth am Ewrop a'r Undeb Ewropeaidd yw Europe Direct Wrecsam. Rydym yn darparu llawer iawn o lenyddiaeth AM DDIM i bob oed am bob math o bynciau am yr amgylchedd, Senedd Ewrop, cyfleoedd i bobl ifanc yn Ewrop, teithio yn Ewrop ac ieithoedd.

Rydym hefyd yn darparu pecynnau i athrawon i'w helpu i gyflwyno pynciau ar Ewrop a'r Undeb Ewropeaidd fel rhan o gymhwyster y Fagloriaeth Gymreig ac Addysg Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Byd-eang.

Rydym yn cynnig deunydd am ddim i greu arddangosfeydd lliwgar ar gyfer waliau am Ewrop fel mapiau, baneri a phosteri.

Ar wahân i'r cyhoeddiadau rydym hefyd yn cynnal gweithdai AM DDIM mewn ysgolion ar bynciau fel hanes yr UE, beth mae'n ei wneud, sut caiff deddfau eu gwneud, pwysigrwydd dysgu ieithoedd tramor, busnes a masnach a'r amgylchedd.

Mae'r gweithdai'n cynnwys gwahanol weithgareddau y gallwch ddewis a dethol ohonynt fel cyflwyniadau, cwisiau, gemau map, dylunio eich ASE a dylunio bag Ewropeaidd i lunio gwers.

Yn ogystal â gweithdai gallwn helpu i drefnu wythnosau Ewropeaidd, gwasanaethau Ewropeaidd, diwrnodau hwyl ac ymweliadau gan ASE fel rhan o ddiwrnodau cwricwlwm.

Nod y newyddlen hon yw eich diweddarau am y gwasanaethau y gall Europe Direct eu cynnig i CHI i helpu i addysgu rhai pynciau.

### Enghreifftiau o Weithdai:

Tylwyth Teg Ewropeaidd (3 – 11 oed, sesiwn 1 awr)

Pa mor dda ydych chi'n adnabod Ewrop? (11+ oed, sesiwn 1 awr)

'Ewrop a'r Undeb Ewropeaidd – beth yw hynny?' ( 11-18 oed, sesiwn 1 awr)

Dylunio Bag Cotwm Ewropeaidd (7-14 oed, sesiwn 1 awr)

Cardiau Post Ewropeaidd (8-11 oed, sesiwn 1 awr)

Dylunio eich Gwleidydd eich hun ( 11-16 oed, sesiwn 30 munud)

Dylunio eich Dinesydd Ewropeaidd (11-16 oed, sesiwn 30 munud)

Dylunio baner UE (8-11 oed, sesiwn 30 munud)

Partneriaethau Strategol i Ysgolion Erasmus + (i athrawon)

E-Efeillio (i athrawon)

Ymweliadau AM DDIM â Senedd Ewropeaidd Llundain

Parlamentarium – Canolfan Ymwelwyr Senedd Ewrop - Brwsel

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn gwahodd Europe Direct Wrecsam i ddod i roi cyflwyniad yn eich ysgol, neu os oes angen mwy o wybodaeth arnoch, cysylltwch â ni. Mae'r manylion isod.:

**Europe Direct  
Wrexham**

Llyfrgell Wrecsam,

Ffordd Rhosddu,

Wrecsam,

LL11 1AU

[europedirect@wrexham.gov.uk](mailto:europedirect@wrexham.gov.uk)

01978 292631